



**Cofnodion CBCGC wedi'u Cadarnhau
Is-bwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid (ICPC)
18 Rhagfyr 2025 am 14:00 o'r gloch
Yn Bersonol a thrwy Microsoft Teams**

Aelodau:

Paul Worthington	(PW)	Cadeirydd yr ICPC ac Aelod Lleyg
Ian Green	(IG)	Aelod Lleyg a Chadeirydd Annibynnol y Cydbwyllgor
Nia Roberts	(NR)	Aelod Lleyg
Hayley Thomas	(HT)	Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Yn Bresennol:

Adrian Clarke	(AC)	Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Iechyd Meddwl, Anabledau Dysgu a Grwpiau sy'n Agored i Niwed
Alex Crawford	(ACr)	Dirprwy Gyfarwyddwr y Swyddfa Cynllunio Corfforaethol a Rheoli Rhaglenni
Aaron Fowler	(AF)	Ysgrifennydd y Pwyllgor
George Galletly	(GG)	Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cynllunio a Strategaeth
Huw George	(HG)	Prif Gomisiynydd Dros Dro
Matt Edwards	(ME)	Ysgrifennydd Pwyllgor Cynorthwyol Dros Dro
Stacey Taylor	(ST)	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwerth/Dirprwy Brif Gomisiynydd
Ross Whitehead	(RW)	Cyfarwyddwr Comisiynu Gwasanaethau Ambiwlans ac 111
Melanie Wilkey	(MW)	Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Arbenigol

Ymddiheuriadau:

Abigail Harris	(AH)	Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
----------------	------	---

Cofnodion:

Maxine Evans	(MEv)	Swyddog Sicrwydd a Risg, CBCGC
--------------	-------	--------------------------------

Agorodd y cyfarfod am 14:00 o'r gloch.

Cyfeirnod yr Eitem	Eitem Agenda
PPF25/075	Croeso a Chyflwyniadau Cynhaliwyd y cyfarfod trwy Microsoft Teams. Gwnaed cyflwyniadau a nodwyd bod cworwm wedi'i gyflawni. Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau i recordio'r cyfarfod at ddibenion gweinyddol.
PPF25/076	Ymddiheuriadau am Absenoldeb Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod.
PPF25/077	Datganiadau o Fuddiant Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.
PPF25/078	Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2025 Cymeradwywyd bod cofnodion cyfarfod yr Is-bwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid (ICPC) a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2025 yn gofnod cywir a chywir o'r cyfarfod.



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem Agenda
PPF25/079	<p>Cofnod Camau Gweithredu</p> <p>Cafwyd y Cofnod Camau Gweithredu. Nododd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• PPF25/012 – Roedd cadarnhad o'r gofynion hyfforddi statudol/gorfodol ar gyfer Aelodau Lleyg yn parhau i fod heb eu cadarnhau. Cynghorodd AF fod disgwyl adborth cadarnhaol yn y flwyddyn newydd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn cadarnhau na fyddai disgwyl i Aelodau Lleyg ymgymryd â rhai modiwlau o fewn y rhaglen hyfforddi orfodol. Byddai hyn yn cael ei gadarnhau mewn cyfarfod yn y dyfodol. <p>Cytunodd yr aelodau i gwblhau gweddill y camau gweithredu wedi'u marcio fel rhai 'ar gau'.</p>
PPF25/080	<p>Cofrestr Risg Sefydliadol (CRS) CBCGC – Risgiau a Neilltuwyd i'r Is-bwyllgor CPC</p> <p>Cafodd yr aelodau risgiau neilltuedig yr Is-bwyllgor CPC o Gofrestr Risg Sefydliadol (CRS) CBCGC ar 30 Tachwedd 2025. Ar ôl craffu ac adolygu gan yr ICPC, byddai'r Cyd-bwyllgor Comisiynu (CBC) yn cael cofrestr risg Tachwedd 2025 yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2026. Amlygodd AF:</p> <ul style="list-style-type: none">• 5 o risgiau comisiynu a 2 risg gorfforaethol/feddygol, gyda sgôr o 15 ac uwch, wedi'u neilltuo i'r Is-bwyllgor CPC.• Rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2025 ychwanegwyd un risg newydd – Risg 94 Costau Meddyginiaethau Cynyddol.• Roedd 3 risg wedi'u llacio – Risg 3 Gwasanaethau Llawfeddygaeth Blastig De Cymru, Risg 28 Parhad Busnes a Risg 90 Datblygiad Sefydliadol y CBC drwy Gynllunio Gweithlu Strategol Effeithiol. <p>Nododd AF fod gwaith ar wella'r CRS yn parhau. Roedd risgiau'n cael eu hailddiffinio gyda champau gweithredu a lliniaru sy'n canolbwyntio ar y comisiynydd a rhannodd AF fod dwy risg wedi'u hailysgrifennu gyda thimau comisiynu (Risgiau 3 ac 88). Byddai risgiau newydd yn cael eu hadolygu gan yr Uwch Dîm Arwain cyn iddynt gael eu hychwanegu at y CRS wrth symud ymlaen i sicrhau eu bod yn cael eu disgrifio a'u sgorio'n briodol. Nodwyd bod gweithdy gyda'r Uwch Dîm Arwain wedi cael ei gynnal y diwrnod blaenorol a oedd wedi cefnogi gwelliannau parhaus.</p> <p>Trosglwyddodd y Cadeirydd i'r aelodau a thrafodwyd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Risg Newydd 94 – Meddyginiaethau Cost Uchel. Nodwyd y byddai'n anodd lliniaru'r risg hon yn y tymor byr, ond y byddai'n cael ei chadw'n destun adolygiad. Mae'n bosibl fod y risg hon yn risg fwy sylweddol i CBCGC a'i swyddogaeth Cais Cyllido Claf Unigol nag i Fyrddau Iechyd oherwydd natur y gwasanaethau a gomisiynir gan y sefydliad. Cynghorodd ST fod Byrddau Iechyd yn nodi nifer o gyffuriau cost uchel i'w trosglwyddo i'r Cydbwyllgor a fyddai hefyd yn cael effaith yn y maes hwn. Byddai trafodaethau cyllid yn cael eu cynnal gyda Byrddau Iechyd i reoli'r sefyllfa hon.• Gofynnodd HT a oedd unrhyw beth ar y gorwel a fyddai'n effeithio ar sefyllfa diwedd y flwyddyn. Mewn ymateb, dywedodd AF y byddai'n tynnu sylw at unrhyw risgiau lefel is sy'n dod i'r amlwg (o dan sgôr o 15) yn yr adroddiad eglurhaol, na fyddent efallai'n cael eu hychwanegu at y CRS fel bod aelodau'n cael eu gweld arnynt.



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem Agenda
	<p>Penderfynodd yr Aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Nodi'r adroddiad,• Adolygu a chraffu ar y risgiau a neilltuwyd ar ran y CBCGC; a• Cymeradwyo'r CRS ar gyfer sicrwydd ymlaen i'r CC ar reoli'r risgiau yn effeithiol
PPF25/081	<p>Adroddiad Perfformiad Gweithredol Cyfunol CBCGC</p> <p>Cafwyd Adroddiad Perfformiad Gweithredol Cyfunol CBCGC. Amlygodd ST:</p> <ul style="list-style-type: none">• Fod gwaith i wella'r adroddiad a'r data a rennir yn y ddogfen yn parhau, gan nodi bod cyfleoedd ychwanegol ar gyfer gwella yn parhau i gael eu nodi wrth i'r gwaith fynd rhagddo.• O drosolwg cyffredinol o berfformiad, bod lefelau gweithgarwch ar gyfer y prif arbenigeddau yn gostwng o gymharu â'r llynedd gyda gwaith yn mynd rhagddo i ddeall y rhesymau dros hyn.• Cynnydd mewn hyfforddiant statudol a gorfodol a wnaethpwyd.• Bod gwaith ffocws pellach wedi'i drefnu i brofi'r broses adrodd ar gyfer data Adolygiad Gwerthuso a Datblygu Personol (PADR) i sicrhau bod hyn yn rhoi sicrwydd priodol i'r Is-bwyllgor. Nodwyd fod angen glanhau data cydymffurfiaeth PADR oherwydd y nifer gymharol uchel o gydweithwyr CBCGC a gyflogir ar swyddi secondiad. <p>Trafododd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Sesiwn wedi'i threfnu ym mis Ionawr 2026 gydag Uwch Dîm Arwain CBCGC i ystyried yr ysgogiadau angenrheidiol sy'n ofynnol i ddwyn darparwyr i gyfrif trwy eu contractau, gan gydnabod bod angen bod yn llawer mwy cadarn ynghylch metrigau a mesurau perfformiad.• Anawsterau a geir wrth gasglu data ar draws GIG Cymru ar gyfer rhai gwasanaethau. <p>Cyflwynodd ST y cynnydd a wnaed gan CBCGC yn ei adolygiad cyflym o adroddiadau rheoli perfformiad, gan dynnu sylw at gymhlethdod sylweddol y gwaith sy'n ofynnol a'r angen i adrodd am berfformiad yn erbyn y cynllun.</p> <p>Trafododd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Waith parhaus i ddatblygu arbenigedd yn y maes hwn i gefnogi gwelliannau gofynnol i adroddiadau perfformiad.• Er bod cynlluniau ar waith i rannu Adroddiad Perfformiad wedi'i ddiweddarau ar ddiwedd y flwyddyn, byddai'r gwaith datblygu yn parhau trwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod yr adroddiad yn parhau i adlewyrchu'r metrigau perfformiad yr oedd angen sicrwydd ar yr Is-bwyllgor a'r Cydbwyllgor ar eu cyfer.• Wrth i adroddiadau Perfformiad a Rheoli Risg ddatblygu, byddai gwaith yn cael ei wneud i sicrhau bod y ddau'n cydreddeg.• Yr angen i ddeall sut mae Byrddau Iechyd a GIG Lloegr yn adrodd a, lle bo hynny'n briodol, mabwysiadu arfer gorau. <p>Penderfynodd yr Aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Sylwi ar y diweddariad Perfformiad a rannwyd a gweithgarwch parhaus i ddatblygu Adroddiad Perfformiad CBCGC.



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem Agenda
PPF25/082	<p>Adroddiad Perfformiad Ariannol CBCGC - Mis 8 2025-2026</p> <p>Cafwyd Adroddiad Mis 8 Perfformiad Ariannol CBCGC, ac amlygwyd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Roedd y sefyllfa diwedd blwyddyn a ragwelir yn parhau'n £7.7m o ddiffyg.• O ran risgiau, roedd CBCGC yn dal i reoli ei risg ariannol gyda phwysau cost sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys nifer cynyddol o drawsblaniadau ysgyfaint a chostau cynyddol gweithgarwch ynghylch clefyd anadlol dros y ddeufis blaenorol.• Byddai adolygiadau o weithgarwch ariannol ac effaith rheoli gweithgarwch a gomisiynwyd yn parhau yn y flwyddyn newydd a byddent yn destun adroddiadau i'r Cydbwyllgor ym mis Ionawr 2026. <p>Rhoddodd IG adborth i'r Is-bwyllgor yn dilyn ei gyfarfod diweddar ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys disgwyliad clir Llywodraeth Cymru y byddai CBCGC yn mynd ymhellach i leihau'r diffyg ariannol yn ystod y flwyddyn gyfredol. Byddai hyn yn cynnwys archwilio cyfleoedd yn ystod y flwyddyn a allai wella sefyllfa diwedd y flwyddyn, gan gynnwys unrhyw wariant y gellid ei ohirio neu sgysiau rhagweithiol i'w cael gyda darparwyr ynghylch camau y gallent eu cymryd i wella gwariant CBCGC.</p> <p>Trafododd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Yr angen i reoli gwariant yn weithredol dros y 3 mis nesaf.• Pwysigrwydd parhau i gydweithio i wella'r sefyllfa cyn y byddai sefyllfaoedd diwedd blwyddyn yn cael eu datgan.• Bod CBCGC yn agosáu at bwynt ysgrifennu'n ffurfiol at Fyrddau Iechyd i ddatgan ei sefyllfa. Roedd ST wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn nodi sefyllfa CBCGC, gan nodi bod yr effaith yn cwmpo'n anghymesur ar Fwrdd Iechyd Addysgu Powys a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. <p>Penderfynodd yr Aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Sylwi ar y sefyllfa ariannol ar ddiwedd y mis.
PPF25/083	<p>Trafodaeth Rheoli Gweithgarwch</p> <p>Cafodd yr Aelodau bapur yn darparu rhagor o fanylion ariannol, manylion y risgiau a nodwyd a chynllun gweithredu ar gyfer y tri maes cyfle i gefnogi gwelliant yn y sefyllfa ariannol eleni. Tynnodd MW sylw at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Roedd nodyn briffio wedi'i gylchredeg i'r Aelodau yn dilyn cyfarfod Cydbwyllgor Eithriadol 16 Rhagfyr 2025, yn cynghori bod cynllun manwl wedi'i gymeradwyo a bod y tîm eisoes yn gweithio i weithredu'r camau y cytunwyd arnynt.• Byddai angen cynnal mwy o asesiadau effaith ansawdd wrth i'r gwaith fynd rhagddo, gan gydnabod effaith uniongyrchol y camau gweithredu ar gleifion.• Er mwyn cyflawni posibilrwydd osgoi £415k o gostau, byddai angen cefnogaeth a chynnydd gan holl ddarparwyr GIG Lloegr. <p>Trafododd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Maint a phwysigrwydd y dasg sydd o'u blaenau.



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem Agenda
	<ul style="list-style-type: none">• Capasiti ac effaith bwrw ymlaen â'r cynllun gwaith ar y tîm comisiynu, gyda'r un aelodau tîm hefyd yn gweithio i gyflawni Cynllun Tymor Canolig Integredig y flwyddyn nesaf.• Effaith bosibl penderfyniadau anodd sy'n cael eu gwneud mewn perthynas â chwynion a phryderon.• Bod cydweithwyr o Fwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi estyn allan i rannu eu dysgu a'u cefnogaeth o ymgymryd â champau tebyg, a oedd wedi cael eu croesawu. <p>Penderfynodd yr Aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Sylwi ar yr wybodaeth a ddisgrifir yn Atodiad 1 yr adroddiad.• Trafod cyflawni'r cynlluniau arfaethedig a fyddai'n parhau i fod yn destun adroddiadau i'r Cydbwyllgor.• Trafod datblygu cynllun gweithredu manwl i reoli risg ariannol yn 2026-27.
PPF25/084	<p>Unrhyw Fusnes Arall</p> <p>Cyflwynwyd diweddariad ar ddatblygiad Cynllun Tymor Canolig Integredig CBCGC. Rhoddodd GG ddiweddariad yn dilyn sesiwn y Cydbwyllgor ar 16 Rhagfyr 2025 gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none">• Crynodeb o'r cyd-destun ariannol a'r rhagdybiaethau a wnaed wrth ddatblygu'r cynllun.• Yr angen i ailystyried y 'Pethau Rhaid eu Gwneud' anochel y cytunwyd arnynt yn flaenorol a chynnal adolygiad ohonynt yn seiliedig ar dystiolaeth.• Y byddai pwyslais yn cael ei roi ar wneud penderfyniadau sy'n cael eu sbarduno gan ddata.• Byddai'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y cynllun yn cael ei darparu mewn sesiwn gyda'r Cyfarwyddwyr Cynllunio ar 9 Ionawr 2026.• Bod cyfarfod Eithriadol o'r Grŵp Arwain Comisiynu Cydweithredol (GACC) ar 22 Ionawr 2026 wedi'i drefnu i adolygu'r cynigion yn fanylach.• Y byddai diweddariad pellach ar y cynllun datblygu yn cael ei rannu yng nghyfarfod y Cydbwyllgor ar 27 Ionawr 2026. <p>Nododd IG y gwaith sydd i'w wneud dros y 6 wythnos nesaf ac aliniad y Cynllun Tymor Canolig Integredig â chynlluniau Bwrdd Iechyd. Nododd yr Aelodau y deallir bod risg y gallai rhai Byrddau Iechyd fod yn gweithio i gynlluniau blwyddyn, ac y byddai angen ystyried hyn yng nghyd-destun datblygiad parhaus Cynllun Tymor Canolig Integredig CBCGC. Yn ogystal, cydnabuwyd bod disgwyl llythyrau dyrannu ariannol Llywodraeth Cymru a fyddai'n llywio datblygiad pellach y Cynllun hwnnw a chynllunio ariannol yn y dyfodol.</p> <p>Nododd IG yr heriau presennol a'r heriau yn y dyfodol yr oedd CBCGC yn delio â nhw a'r effaith y gallai hyn ei chael ar ei staff. Cytunwyd y byddai angen arweinyddiaeth gref, gan sicrhau dull cytbwys o ddelio â'r heriau a'r penderfyniadau anodd sydd i ddod gan barhau i fod yn optimistaidd.</p>
PPF25/085	<p>Blaengynllun Busnes</p> <p>Cynhwyswyd y Blaengynllun Busnes er gwybodaeth.</p>



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem Agenda
PPF25/086	Eitemau i'w gohirio/uwchgyfeirio at y Cydbwyllgor Comisiynu / Is-bwyllgorau eraill ac adolygiad o unrhyw gamau gweithredu i gyfarfodydd yn y dyfodol Nid oedd unrhyw eitemau i'w gohirio na'u huwchgyfeirio y tro hwn.
PPF25/087	Dyddiad y Cyfarfod Nesaf Daeth y cyfarfod i ben am 15:38. Trefnwyd y cyfarfod nesaf ar gyfer 23 Chwefror 2026.